


CYNGOR TREF PORTHMADOG



PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL Yn y Ganolfan am 19.00 nos Fawrth Ionawr 28 2025

COFNODION

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith (Cadeirydd); Trefor Jones; Gwilym Jones; Carol Hayes; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Glenda Murray; Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cyng Llywelyn Rhys

C1.1.25 Ymddiheuriadau – Cyng Dr Melfyn Edwards

C2.1.25 Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at Ionawr 20 2025 ynghlwm).

Penderfynwyd :- Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

C3.1.25

Ychwanegwyd anfoneb 3,4,5 a 6 at y rhaglen wreiddiol.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Glenda Murray yn eilio:-

1	ALAN G. JONES	Tynnu polion fflag a trwsio llechi tô toiledau Borth y Gest	£432.00
2	GARETH GRIFFITHS	Gosod a thynnu goeuadau Nadolig	£1152.00
3	BAND YR OAKELEY	Perfformio yn Goleuo Port 29.11.24	£350.00
4	WILLIAMS & WILLIAMS	Nôl a danfon coed Nadolig	£288.00
5	WILLIAMS & WILLIAMS	Skip Cae Pawb wedi storm Darragh	£312.00
6	GWYN VAUGHAN JONES	Cyflwyno noson Goleuo Port	£30.00

C4.1.25 Gwariant Nadolig

- **Ymchwilio i'r posibilrwydd o newid y trefniadau ar gyfer Nadolig 2025**

Roedd y Clerc wedi paratoi tabl manwl yn dangos gwariant Nadolig 2024 ac roedd yn bryderus iawn fod y cyfan yn mynd i gostio bron i **£29,500 am y ddarpariaeth yn 2024** - sef bron i **hanner y Praesept blynyddol o £66,962.10**. Roedd y ffaith bod bil Cyngor Gwynedd o £2,367.26 ar 9.4.24 am eu gwasanaeth Nadolig 2023 wedi ei gynnwys yng nghyllideb a chyfanswm 2024 a gwariant o £12,799.44 am 12 golau newydd yn 2024 yn golygu cynydd sylweddol yn y costau arferol.

Roedd wedi ymchwilio i ddarpariaeth Nadolig trefi eraill cyfagos :-
Pwllheli –£100,000 am gytundeb 5 mlynedd gyda chwmni Lite

Caernarfon – cytundeb gyda chwmni Lite

Prestatyn – (poblogaeth o 19,000 / 6 ward/ 18 cynghorydd / Praesept 2023-24 o £497,299) cytundeb efo cwmni Lite – gwariant ar oleuadau Nadolig 2023-24 = £25,000.

Roedd wedi pasio ymlaen wybodaeth gan gwmnïau mega-electical.co.uk o'r Wyddgrug a Festive Lighting Company i'w cymharu.

Clywyd fel yr oedd trefniadau Nadolig yn y gorffennol wedi cael eu gwneud gan Ffrindiau Port a Caru Port a'r Cyngor Tref yn talu. Erbyn hyn mae'r cyfrifoldeb o drefnu a chydlynu gweithgareddau/ adloniant/ gwesteion/ goleuadau/ trydanwyr/ coed / contractwyr yn disgyn ar ysgwyddau Clerc y Cyngor Tref.

Penderfynwyd :- Y Clerc i holi Cyngor Tref Dolgellau am bris eu coeden Nadolig hwy; holi am 3 dyfynbris i'w dderbyn ymhen y mis (gan gynnwys y darparwr presennol) am gytundeb gwasanaeth goleuadau Nadolig 3 blynedd yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Glenda Murray yn eilio.

C5.1.25. Ceisiadau Cynllunio

Dim cais cynllunio wedi dod i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.00

Marian Roberts

29.1.25